PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 394 | Rhagfyr 2016



Cyfrol newydd Daniel t.19



Ardal sgiliau beiciau Nantyrarian t.6



t.4 Perchnogion newydd y Maes



Coed ar Ffordd Pen-y-berth, Penrhyn-coch



To Horeb, Penrhyn-coch



# Chwyth, chwyth aeafol gorwynt!

Bore Iau 17 Tachwedd tarwyd yr ardal gan gorwynt annisgwyl yn mesur 82 not yng ngorsaf dywydd Bad Achub Aberystwyth - sef 94mya. - yr uchaf erioed iddynt ei gofnodi. Collodd nifer yn yr ardal eu cysylltiad efo'r we! Syrthiodd teils yng Nghae'r Odyn, torrodd y polyn i'r Ddraig Goch ger Afallen Deg yn ei hanner; cwympodd nifer o ffensiau a choed yn Bow Street a Phenrhyn-coch a chafwyd difrod i do Capel Horeb.





Difrod yn y Borth a Chlarach. Lluniau: Iestyn Hughes

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Ionawr**
**Deunydd i law**: Ionawr 6. **Dyddiad cyhoeddi**: Ionawr 18

RHAGFYR 15 Pnawn Iau Parti Nadolig Cylch Meithrin Rhydypennau yn Neuadd Rhydypennau o 4.00-6.00

RHAGFYR 15 Nos Iau Plygain traddodiadol yn Eglwys St Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn (26ain plygain y Gymdeithas) i gychwyn am 7.00

RHAGFYR 16 Pnawn Gwener Gwasanaeth Cristingl Ysgol Penrhyn-coch yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch am 2.30

RHAGFYR 16 Bore Gwener Gwasanaeth Nadolig Ysgol Penweddig ym Methel Aberystwyth am 10.30; siaradwr gwadd: Y Parchg Lyn Lewis Dafis.

RHAGFYR 16 Nos Wener 'Dathlu'r Nadolig'. Cymdeithas Lenyddol y Garn, yn y festri am 7.30.

RHAGFYR 16 Pnawn Gwener Gwasanaeth Cristingl Ysgol Penrhyn-coch yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch am 2.30

RHAGFYR 18 Pnawn Sul Marchnad Nadolig wedi ei threfnu gan PATRASA yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch o 3.00 tan 7.00. Dros 20 o stondinau amrywiol gyda Siôn Corn yn ymweld rhwng 4.00 a 6.00.

RHAGFYR 19 Pnawn Llun Bydd Clwb Ieuenctid Cristnogol (CIC) yn canu carolau - am 2.00 Cartref Tregerddan; 2.45 Plas Cwmcynfelyn; 3.15 Coach-house Cwmcynfelyn 4.00 Maes Gogerddan (Heol Pen-glais, Aberystwyth). Os am ymuno cysylltwch gyda Zoe Jones 07584 411 524 neu Dewi Hughes

RHAGFYR 19 Nos Lun Clwb Ieuenctid Cristnogol (CIC) yn Neuadd Rhydypennau gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds 6.00-7.00 bl 4/5/6 a 7.00-8.00 bl 7 ac i fyny

RHAGFYR 19 Nos Lun Gwahoddiad i ymuno â Christnogion eraill i ganu carolau o gylch wardiau Ysbyty Bron-glais – cychwyn yng nghapel yr ysbyty am 6:15.

RHAGFYR 19 Nos Lun Gyrfa chwist dofednod ffres yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 8.00 Dewch yn llu i ennill eich cinio Nadolig.

RHAGFYR 21 Nos Iau Cyngerdd Nadolig Academi Ger-y-lli yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 6.30. Mynediad am ddim

**2017**
IONAWR 4 Nos Fercher Cyfarfod PACT yn Neuadd Rhydypennau am 7.00

IONAWR 18 Nos Fercher Gruff Antur yn trafod *Deugain Barddas* Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

IONAWR 20 Nos Wener 'Bridio Defaid o Gymru i Seland Newydd', yng nghwmni Dewi Jones. Cymdeithas Lenyddol y Garn, yn y festri am 7.30

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig eleni ond yn cyfrannu arian i elusen o'm dewis. Yr elusen ddewiswyd eleni yw Cymorth Cristnogol -Taith o Fethlehem i'r Aifft.
**Ceris Gruffudd (Golygydd)**



Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Tachwedd 2016

**£25** (Rhif 43) Gareth W Jones, Hafle, Penrhiw, Bow Street
**£15** (Rhif 80 ) Megan Davies, 54 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 103) Bryn Roberts, Cilgwyn, 5 Brynmeillion, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Tachwedd 16

Mae bron yn amser ail ymaelodi gyda'r Cyfeillion ond mae yn siomedig gennyf eich hysbysbu efallai fydd y gwobrau yn lleihau gan fod yr aelodaeth yn lleihau. Mae'r swm mae y Cyfeillion yn gynhyrchu yn bwysig iawn i goffrau Y Tincer felly os ydych eisiau cefnogi cysylltwch gyda Bethan Bebb er mwyn cael ffurflen ymaelodi.

## 30 MLYNEDD YN OL



Rhai o chwaraewyr Clwb Criced y Borth a dderbyniodd wobrwyon yn y cinio blynyddol yn ddiweddar yng nghwmni'r Cynghorydd Gethin Evans (Maer) a Mrs Evans, a'r Cynghorydd Tom Raw Rees (Llywydd y Clwb). Llun: Arvid Parry Jones (O'r *Tincer* Rhagfyr 1986)

### Nodyn gan y golygydd

Gwahoddwyd pedwar bardd o ardal y Tincer i gyfrannu cerddi Nadolig i'r rhifyn yma. Diolch iddynt am eu parodrwydd i gynorthwyo.

Mae'r Tincer yn elwa o arian godir trwy y Clwb Cyfeillion ac mae yn amser ymaelodi. Pe hoffech gefnogi eich papur bro ac nad ydych eisoes yn aelod gwelir ffurflen ar t.20

### Penwythnos i Ddysgwyr

Mae Cymdeithas yr Iaith yn trefnu **Penwythnos i Ddysgwyr** yn cael ei gynnal yn Nhresaith ym mis Chwefror. Mae'r manylion llawn ar wefan y Gymdeithas: cymdeithas.cymru/cwrs ond yn ystod y penwythnos bydd:

- Richard o fand lleol Ail Symudiad yn siarad am gerddoriaeth y band ac yn chwarae rhai caneuon.
- Siân ap Gwynfor yn sôn am ei phrofiadau fel ymgyrchydd gyda merched Comin Greenham, Cymdeithas yr Iaith ac yn ddiweddar gyda Chymdeithas y Cymod
- Dyfed Ellis Gruffydd yn arwain taith o dref Aberteifi a bydd cyfle i grwydro'r dref.
- Twmpath yn cael ei arwain gan Emyr Phillips
- Gweithdy gwnïo gyda Carys Hedd (does dim angen profiad blaenorol)

Gellir cael mwy o fanylion o Cymdeithas yr Iaith, Prif Swyddfa, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ (01970) 624501 post@cymdeithas.cymru

### A hoffech chi wirfoddoli dros brosiect heddwch cyffrous?

Mae'r project *'Addysg Heddwch'* yn cynnig rhaglen 1 awr yr wythnos am 6 wythnos i ysgolion cynradd yn y Canolbarth. Mae'n fenter gan Grynwyr Canolbarth Cymru ond d'yw e ddim am Grynwriaeth. Yr amcan yw creu awyrgylch heddychlon mewn ysgolion ble mae'r disgyblion yn trin ei gilydd gyda pharch, yn cyd-weithio ac yn datrys problemau yn adeiladol. Y mae braslun o'r sesiynau yn atodedig.

Y mae'r prosiect yn chwilio am hyrwyddwyr Cymraeg yn arbennig, yn dilyn ceisiau cynyddol am fewnbwn gan ysgolion Cymraeg. Os oes gennych amser ac awydd i wirfoddoli, a wnewch chi gysylltu â Helen Porter helenporter@phonecoop.coop neu 01686 650326.

Caiff gwirfoddolwyr yr hyfforddiant, y deunyddiau a'r gefnogaeth angenrheidol. Cyswllt Cymraeg Medi James medijames22@gmail.com 01970 612794

### Annwyl Ddarllenwyr

Trosglwyddwyd £1,600 o elw'r llyfr *Basned o Gawl* i'r Hospis yn y Cartref ac i Ambiwlans Awyr Cymru yn ystod mis Tachwedd. Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb yng nghylch y Papurau Bro lleol a fu mor barod i gyfrannu trwy brynu'r llyfr ac felly hybu'r ddau achos arbennig yma.
Mae yna ychydig gopïau ar ôl a gwnânt anrheg Nadolig perffaith i rywrai lleol sy'n byw i ffwrdd. Cysyllter â'r awdur (wilmair@btinternet.com; ffôn 01970 623334).
Diolch yn fawr,
Wil Griffiths



# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon Capel Pen-llwyn**

*Rhagfyr*
18 10.00 Elwyn Pryse
25 Oedfa'r Nadolig

*Ionawr*
1 10.00 Bugail
8 10.00 John Tudno Williams
15 10.00 Elwyn Pryse
22 5.00 Roger Ellis Humphreys
29 2.00 Beti Griffiths

**Eglwys Dewi Sant,**

Rhagfyr 18 Nos Sul am 6
Gwasanaeth Carolau
Rhagfyr 24 Noswyl Nadolig
Cymun Bendigaid am 11.30
Rhagfyr 25 Dydd Sul
Cymun Bendigaid am 9.30

**Busnesau y Pentref (Rhif 3)**

Dyma ychydig o hanes diweddaraf "Y Maes Bangor Arms" gyda'r deiliaid newydd ers Medi 1af. Jason a Charlotte yw eu henwau; Jason wedi ei eni yng Nghanolbarth Lloegr ; symudodd i Bonterwyd yn 6 oed gan fynychu Ysgol Syr John Rhys o dan athrawiaeth Mr Dick Evans. Cogydd ydyw yn ôl ei alwedigaeth, a bu yn chef yn Ngafarn y Gors, New Cross.

Yma bu i'r ddau gwrdd, hi ar wyliau yng ngharafan ei chwaer. Cwympo mewn cariad ar yr olwg gyntaf, a dyma gychwyn y garwriaeth. Dyna ramantus!! Bu Charlotte yn gweithio yn M&Co am gyfnod, ond yn fuan iawn gwelsant man gwyn fan draw, ac aethant yn ôl i Loegr.

Ar ôl rhyw flwyddyn, aeth yr hiraeth yn drech â hwynt. Efallai mai mynd a wnaethant, er mwyn dod i Gymru'n nôl, a medru caru Cymru'n well! Bellach y maent gyda'i gilydd ers tair blynedd, ac yn bwriadu priodi cyn hir.

Menter newydd iddynt yw "Y Maes" ac y maent yn gobeithio trefnu gwahanol adloniant yn ystod tymor y Nadolig.






Dymunant gefnogi yr R.N.L.I. noswyl y Nadolig, trwy raffl "Enwi'r Arth" Bydd hamper i'r enillydd. Bydd yna gêmau a lot o hwyl, a chroeso i bawb.

Hefyd, meddent, bydd buffet yn rhad ac am ddim nos galan, gyda miwsig tawel yn y cefndir, fel bod pawb yn medru sgwrsio yn hamddenol.

Mae Jason a Charlotte yn ddiolchgar i'r gymuned am eu derbyn,ac am y gefnogaeth. Er gwybodaeth byddant yn paratoi partïon pen blwydd, pan fydd y galw.

Edrychant ymlaen i nosweithiau amrywiol yn y flwyddyn newydd. Estynnant groeso cynnes iawn i bawb, felly mynnwch raglen.
Dymuniadau da iddynt a phob hwylustod yn eu busnes cyntaf.

**Priodas hapus**

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Hywel a Rita Jones, Coed Ladur, ar eu priodas ym Mhortmeirion yn ddiwedda. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

**Troi y goleuadau ymlaen**

Ar ddiwedd Tachwedd, casglodd pobl a phlant i'r Exchange, i weld y goleuadau yn cael eu troi ymlaen ar y goeden nadolig enfawr, a dyna hyfryd 'roedd yn edrych. Bu plant y Cylch Meithrin a'r ysgol Gynradd yn canu yn swynol iawn, ac i goroni y cyfan cafodd pawb gawl a gwin os y mynnent – hyfryd a blasus iawn. Dyma ymdrech gyntaf Daniel i wneud cawl, meddai Melanie. Diolch i'r ddau am eu haelionu. Yn helpu y noswaith hynny hefyd roedd Daniel (arall) a Rebecca. Mae gwerthiant ar y cawl yn parhau, perffaith ar ddiwrnod oer ym mis Rhagfyr.

**Gwasanaeth Plant Capel Pen-llwyn**

Cynhaliwyd gwasanaeth y Nadolig ar Ddydd Sul y 4ydd o'r mis. Ychydig bach yn gynnar meddech, ond dyma pryd oedd ein gweinidog ym Mhen-llwyn. Gwnaeth y plant eu gwaith yn dda fel arfer, a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth. Hyfryd oedd gweld pobl ieuainc y capel yn cymryd rhan hefyd.

**I gofio'n annwyl am Glyndwr Davies**

Fe'i ganwyd ym mis Hydref 1926 a chafodd fagwraeth hapus gan ei dad-cu a'i fam-gu. Bu'n byw yn 7 Dôl-y-Pandy drwy gydol ei oes. Mynychodd Ysgol Gynradd Sirol Pen-llwyn tan oedd yn 14eg mlwydd oed, ac yna ymgymerodd â chyfres o swyddi mewn siopau yn nhref Aberystwyth, cyn symud i Farchnad Arddio Newman yn Llanbadarn. Cwblhaodd Glyndwr ei wasanaeth cenedlaethol yn yr Awyrlu Brenhinol, lle cyrhaeddodd reng Corporal a threuliodd beth amser yn Poona, India. Dyma'r cyfnod hiraf a dreuliodd i ffwrdd o Gapel Bangor.

Wedi iddo ddychwelyd o'i Wasanaeth Cenedlaethol, bu Glyndwr yn gweithio yn yr 'Exchange', siop y pentref, gyda theulu'r Lewisiaid. Roedd gan deulu'r Lewisiaid feddwl uchel iawn o Glyndwr ac roedd y cwsmeriaid hefyd yn meddwl y byd ohono. Roedd yn barod iawn ei gymwynas ac roedd bob amser yn barod iawn i helpu'r cwsmeriaid ym mhob ffordd. Roedd cynorthwyo a helpu cwsmeriaid yn bwysig iawn iddo, a byddai'n nôl ac yn cario nwyddau ar eu cyfer.

Ar ymddeoliad teulu'r Lewisiaid,

gadawodd Glyndwr, gan newid ei swydd ac ymuno â Phwerdy Cwmrheidol, lle roedd yn hynod o hapus, ac arhosodd yno nes iddo ymddeol yn 65 mlwydd oed. Fel chwaraewr ifanc yr oedd yn 'un o'r bechgyn' yn y pentref ynghyd â Maldwyn, Dewi a Dic. Bydd llawer yn ei gofio allan ar ei feic. Treuliodd lawer iawn o'i amser yn teithio o gwmpas y lle, yn mynd i gyfeiriad y dref ac i'r ardaloedd gwledig.

Roedd Glyndwr bob amser yn hapus, gan siarad am gefn gwlad a'r ardal leol. Bu'n cymryd rhan yn y sioe leol, Sioe Capel Bangor, am flynyddoedd lawer. Un o'i ddiddordebau oedd gwylio a dilyn pêl-droed. Dilynodd dîm pêl-droed Wolverhampton Wanderers o bell ac roedd yn barod iawn i deithio o bryd i'w gilydd i'w gweld yn chwarae.

Roedd yn aelod ffyddlon o'r Eglwys, lle canai'r gloch bob dydd Sul. Bu'n glochydd am dros hanner can mlynedd. Gofalai am y fynwent, lle byddai'n torri'r borfa'n gyson, a gwnaeth hynny am lawer iawn o flynyddoedd. Dosbarthai'r papurau Sul i bobl yr ardal.

Yn ystod ei flynyddoedd olaf, bu'n gweithio'n galed, gan edrych ar ôl ei fam ac yna ei chwaer, Mair. Gofalai'n arbennig am y ddwy ohonynt, gyda chymorth y proffesiwn meddygol, gan alluogi'r ddwy i aros gartref yn Nôl-y-Pandy.

Treuliodd Glyndwr ei flwyddyn olaf yng nghartref gofal yr Annedd yn Llanybydder, lle cafodd amser cysurus, a phrofi cynhesrwydd a gofal arbennig.

Dyn ei filltir sgwâr ydoedd a diolchwn am gael ei adnabod.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Mr a Mrs Gareth Davies, ei frawd a'i chwaer yng nghyfraith, â David, ei nai ac â Jane, ei nith, yn Wolverhampton.

### Dysgwyr brwdfrydig

Gwelwyd enw Juanita Foster Jones yn *Nhincer* Hydref ar ôl iddi ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth tynnu llun y Tincer yn Sioe Penrhyn-coch eleni. Gan ei fod yn enw dieithr cysylltodd y *Tincer* â Juanita i gael ychydig o'r hanes. Daw yn wreiddiol o Rydychen ond symudodd gyda'i theulu i Aberystwyth yn 2009. Penderfynodd ddysgu Cymraeg – ac er na fu yn hawdd iddi o bell ffordd fe ddyfalbarhaodd gan ddal ati i ddysgu'r iaith yn ogystal ag annog eraill – gan gynnwys ei mam - i fwrw ymlaen i ddysgu. Mae Juanita'n ceisio byw ac yn gwneud ei gorau glas i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd ryw ben gyda'i merch Cerys, ei gŵr Bryn, a'i mam Felicity. Yn 2014 derbyniodd wobr Cymraeg yn y Teulu – y tro cyntaf i ganolfan Cymraeg i oedolion Canolbarth Cymru gynnig y wobr hon

Yn ol Juanita "Dwi'n gallu helpu fy merch gyda'i gwaith cartref Cymraeg nawr, ac yn ymarfer sgwrsio gyda fy ngŵr sy ar lefel mynediad ar hyn o bryd. Dwi'n anfon neges destun yn Gymraeg ato fe a fy mam. Mae'n ein helpu ni i ymarfer ysgrifennu yn Gymraeg. Pan ddechreuodd fy ngŵr ddysgu Cymraeg ro'n i'n gallu ei helpu achos mod i'n dysgu ar lefel uwch. Pan dan ni'n mynd mas dan ni'n gallu siarad yn Gymraeg gyda phobl. Dw i'n prynu *Lingo newydd* ac mae Bryn a fi'n darllen gyda'n gilydd. Mae fy mam a fi wedi gwneud her darllen Chwech gyda'n gilydd. Petaswn i'n ennill y wobr baswn i'n talu am y cwrs Cymraeg nesa a phrynu mwy o lyfrau Cymraeg i'w darllen gyda fy nheulu. Dwi'n meddwl bod dysgu Cymraeg fel teithio yng Nghymru – dych chi'n mynd i fyny ac i lawr, ond yn y diwedd dych chi'n cyrraedd lle mor bert, mor hyfryd, dych chi'n teimlo eich bod yn sefyll ar ben y byd. Gwnes i Ras yr iaith y llynedd oherwydd mod i mor falch o fod yn ddysgwr Cymraeg.'

Llongyfarchiadau mawr i Juanita a'i theulu am eu hymdrech fawr i ddysgu a defnyddio'r iaith.



Yn y llun gwelir Juanita (ar y dde) gyda'i mam Felicity, Cerys ei merch, a'i gŵr Bryn. Gwobr yw hon ar gyfer dysgwyr Cymraeg o Ganolbarth Cymru sydd wedi cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y teulu. Ar y chwith mae Ann Davies, tiwtor Juanita.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn £120; hanner tudalen £80; chwarter tudalen £50. Maint i fyny i 4cm x 6cm, £40 am ddeg rhifyn (£4 y rhifyn am 6-10 rhifyn / £6 y rhifyn am 1-5 rhifyn). Maint dros 4cm x 6 cm a lan i 6cm x 9cm, £60 am ddeg rhifyn (£6 y rhifyn am 6-10 rhifyn / £8 y rhifyn am 1-5 rhifyn). Cysyllter â'r Trysorydd.

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

*Trefnwyr Angladdau*

**C T Evans**

Gwasanaeth Angladdol
Teuluol Cyflawn, wedi
ei arwain yn bersonol gydag
urddas. Capel Gorffwys
Preifat, Gwasanaeth
Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre,
Aberystwyth SY24 5BS**

Porchell

**Eich cigydd lleol**

**PEN-Y-GARN**
**FFON 828 447**
**LLUN: 9-5.30**
**MAW-SAD 8.00-5.30**

*Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol*

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture


**PLYGAIN MORLAN**
**7.30, nos Fercher, 21 Rhagfyr**
Dewch i ddathlu'r Nadolig yn ein Plygain draddodiadol. Croeso cynnes i bawb.

**NOSON GWIS MORLAN**
**7.30, nos Fercher, 11 Ionawr 2017**
Cwis blynyddol ble mae timau o gapeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tîm? Ac os nad ydych chi mewn tîm, dewch draw i gefnogi!

Manylion llawn ar wefan Morlan:
**www.morlan.org.uk**
*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*1970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan*

# GOGINAN

Ganol Tachwedd dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu ardal sgiliau beicio mynydd newydd sbon ym Mwlch Nantyrarian. Y syniad yw cael nifer o ddolennau lle gall beicwyr (gan gynnwys dechreuwyr a beicwyr mwy profiadol) ymarfer sgiliau hanfodol a chael hwyl a hanner ar yr un pryd. Mae'r llun ar y dde yn gynllun drafft o sut y bydd yr ardal sgiliau yn edrych. Dylai fod ar agor yn fuan yn y flwyddyn newydd.






# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

### Oedfaon Madog

**2.00**

*Rhagfyr*
18 Bugail

*Ionawr*
1 Elwyn Pryse
8 Rhidian Griffiths
15 Bugail
22 John Tudno Williams
29 Lyndon Lloyd

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad gyda Mr Islwyn Morgan, Cefnfaenor, Capel Dewi ar golli ei frawd Mr John Morgan o Ysbyty Ystwyth a hefyd i ei frawd yng nghyfraith - Mr Ifan Lloyd, Aberaeron.

### Croeso

Croeso i Dr Matthew Woolfall Jones sydd wedi symud i North Lodge, Capel Dewi. Mae Matthew yn frodor o Bont-y-pwl ddaeth i'r Brifysgol yn Aberystwyth i ddilyn cwrs drama. Mae bellach yn Uwchgynghorydd i Elin Jones.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r cyngor ar Nos Iau, Tachwedd 17 am 7.30. Roedd y cynghorydd Jean Watson yn y gadair ac Elaine Lewis fel clerc. Cafwyd cyflwyniad byr gan Glan Davies, Calonnau Cymru a rhoddwyd tystysgrif i bawb wnaeth fynychu yr hyfforddiant ar y diffibrilwyr. Diolchwyd i'r Cynghorydd Aled G Lewis am ei waith o osod y diffibrilwyr i fyny yn eu bocsus melyn drwy'r ardal. Unwaith eto fe fu trafodaeth am bont Rhiwarthen a sylweddoli nad oes dim symud ymlaen gyda'r cyngor wedi bod. Os oes rhywun eisiau gwybod beth sydd yn mynd ymlaen yn ein pwyllgorau mae'r wybodaeth ar safle gwe y Cyngor - www.cyngor-melindwr-council.org.uk/cy

Bydd y pwyllgor nesaf ar Ionawr 19 am 7.30 felly hoffai aelodau o'r cyngor ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

## O'r Cynulliad Elin Jones



Mae materion band llydan yn parhau i fod yn broblem i nifer. Yn ddiweddar, cwrddais â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fand llydan, er mwyn pwysleisio'r angen am wasanaeth gyflym gyfartal i bawb yng Ngheredigion. Cyhoeddodd y Llywodraeth y mis diwethaf fod Openreach ar ei hôl hi o ran y broses cyflwyno band llydan cyflym yng Ngheredigion, gyda dim ond 60% o gartrefi cymwys wedi eu huwchraddio erbyn Mehefin 2016. Mae hyn yn siomedig. Mae angen gweld cynnydd buan yng ngwaith Openreach yng Ngheredigion yn y misoedd nesaf.

O ran cysylltu Ceredigion, roeddwn yn falch iawn i weld y bws uniongyrchol o Aberystwyth i Gaerdydd yn dychwelyd ar ddechrau'r mis. Ers i'r gwasanaeth hanfodol yma ddod i ben, rydw i wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru i'w hail-sefydlu. Mae nifer fawr o etholwyr wedi gweld ei eisiau. Un gwasanaeth y dydd yn ôl ac ymlaen fydd ar gael am y 6 mis cyntaf o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn, ac fe fydd y gwasanaeth am ddim i bensiynwyr a phobl sydd â Cherdyn Teithio Rhatach. Mi fydda i'n parhau i bwyso am wasanaeth ar y Sul hefyd, gan fod myfyrwyr yn arbennig ei angen bryd hynny.

Yn dilyn gwaith gan swyddogion y Cyngor, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais am gyllid i agor gorsaf drên i Bow Street. Fe fyddai agor yr orsaf yn helpu lleihau dwyster y traffig ar hyd y ffyrdd yng ngogledd Ceredigion, ac yn sicrhau cyswllt dibynadwy rhwng Aberystwyth a Bow Street. Fe fyddai'n sicr o ostwng y pwysau ar barcio yn y dref hefyd.

Pan ddaw'r orsaf, mater diddorol i'w benderfynu fydd enw'r orsaf. Cysylltodd un etholwr â fi yn ddiweddar i gynnig Gorsaf Gogerddan. Mae hyn yn sicr yn awgrym diddorol ac yn ehangu perthnasedd yr orsaf i'r ardal o bosib. Tybed beth mae darllenwyr y Tincer yn meddwl o'r awgrym? Croeso i chi gysylltu â fi gyda'ch barn ar elin.jones@cynulliad.cymru.

Edrychaf ymlaen at y flwyddyn newydd, lle gallaf barhau i weithio dros bawb yng Ngheredigion. Fy fyddaf yn parhau i gynnal cymorthfeydd cyson trwy'r etholaeth, ac yn croesawu negeseuon a gwaith achos gan bawb.

Nadolig llawen iawn i holl ddarllenwyr y Tincer, a blwyddyn newydd dda i chi hefyd!

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

### 30 Mawrth – 1 Ebrill 2017

Dyma destunau llên yr Eisteddfod; y beirniad yw'r prifardd Dafydd Pritchard, Aberystwyth, a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE Ceris.Gruffudd@gmail.com cyn 13 Mawrth.

1 Y Gadair - Cerdd gaeth neu rydd hyd at 50 llinell - Cadair fach a £50.00 ar y testun - Gorwelion.
Y gadair a'r arian yn rhoddedig er cof am y diweddar Elwyn a Hilda Mason, New Inn, Cwmerfin gan David a Mair Mason a Margaret Mason Pollak a Henry Pollak.

2 Telyneg – Glaw
£10.00

3 Llunio Brawddeg o'r gair - CNEIFIO
£10.00

4 Englyn – Hedd Wyn
£10.00

5 Soned – Deffro £10.00

6 Stori fer ar y thema - Chwerthin
£10.00

7 Erthygl neu gyfres o bytiau diddorol addas i'w cyhoeddi ,mewn papur bro
£10.00

8 Adolygiad o unrhyw nofel Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2016 £10.00

9 Limrig yn cynnwys y llinell – Eleni, rwy'n gwneud un adduned £10.00

**HEFYD TESTUN CERDDOROL**

10 Tlws yr Ifanc - dan 21 oed
Tlws a £20.00
Cyfansoddi darn cerddorol – lleisiol neu offerynnol. Y gwobrau yn rhoddedig gan Aaron ac Ashley Stephens, Glan Seilo.
Beirniad rhif 10: Huw Foulkes, Caerdydd
Gwobrwyir enillydd Tlws yr Ifanc ar y nos Wener.

owain bebb a'i gwmni
CYFRIFWYR SIARTREDIG
*CHARTERED ACCOUNTANTS*
Aberystwyth 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa, Aberystwyth SY23 1AS
Caernarfon 01286 677 624
Pwllheli 01758 612646
post@owainbebb.cymru
owainbebb.cymru

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.



newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# PENRHYN-COCH

*Rhagfyr*
**18** 2.00 Oedfa Nadolig
**25** 8.00 Cymun bore'r Nadolig

*Ionawr*
**1** 2.30 Y Parchg Peter Thomas
**8** 10.30 Y Parchg Peter Thomas
**15** 2.30 Sion Meredith
**22** 10.30 Y Parchg Judith Morris
**29** 10.30 Y Parchg Raymond Jones

## Clwb Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 14 Rhagfyr a 11 a 25 Ionawr. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Brysiwch wella

Bu nifer mewn ysbytai yn ddiweddar – dymunwn wellhad buan i Job McGauley, Garn Wen; Henry Thomas, Cwmfelin; Anwen Hopton, Ger-y-llan; Ruth Evans, Cae Mawr a'n gohebyddd lleol ni Mairwen Jones, Tan-y-berth, sydd mor ffyddlon i bopeth yn y pentref.

## Cymdeithas y Penrhyn

Cadw'r Drws yn Agored oedd teitl sgwrs Naomi Jones o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol nos Fercher, 16 Tachwedd. Yr hyn oedd ganddi dan sylw oedd y gwaith mawr sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gartref y bardd Hedd Wyn, sef fferm Yr Ysgwrn yn ardal Trawsfynydd. Soniodd am hanes y teulu a'r fferm, a'r amodau byw a'r cefndir cymdeithasol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Cafodd Ellis Humphrey Evans ei eni yn 1887 ac roedd wedi ennill sawl cadair eisteddfodol cyn ymuno â'r fyddin adeg y Rhyfel Mawr. Cafodd ei ladd yng ngwlad Belg chwe wythnos cyn iddo ennill cadair Eisteddfod Genedlaethol Penbedw 1917. Mae'r gadair hardd a enillodd wedi bod yn Yr Ysgwrn drwy'r blynyddoedd ac mae'r teulu wedi croesawu ymwelwyr i'r tŷ i'w gweld er 1917. Bu Gerald Williams, nai Hedd Wyn, yn gwneud hynny am flynyddoedd nes iddo drosglwyddo'r fferm i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn 2012.

Cafwyd noson ddifyr iawn wrth i Naomi sôn am y gwaith adfer ac adnewyddu sydd wedi digwydd er 2012 gan gynnwys troi un adeilad yn ganolfan groeso a dehongli. Bydd Yr Ysgwrn yn agor i'r cyhoedd adeg y Pasg 2017.

## Hen dad-cu eto

Llongyfarchiadau i Henry Thomas, Cwmfelin, ar ddod yn hen dad-cu yn



Brownies Penrhyn-coch gyda'u coeden

ddiweddar. Ganwyd efeilliaid – Antonio ag Enzo – i Michela a Mark Gornall ar Dachwedd 24; brodyr i Giacomo sy'n troi'n 4 mis.

## 'Me Welsh speaking Japanee!!'

Llongyfarchiadau i Joe Scannell – fydd yn hedfan i Japan yn syth ar ôl gorffen y pantomeim yn Norwich ar ddydd Calan I ymuno â chast y sioe One man's dream yn Disneyland Tokyo am 14 mis!

## Dyrchafiad

Llongyfarchiadau i Jamie Medhurst, Cae Mawr, ar ei ddyrchafiad yn ddarllenydd yn yr Adran Theatr, Ffilm a Theledu.

## Marchnad Nadolig

Eleni oherwydd na chawsom ddiwrnod sych i gynnal y Parti yn y Parc arferol, cynhelir Marchnad Nadolig er budd PATRASA (pwyllgor Parc Penrhyn-coch) yn Neuadd y Penrhyn ar ddydd Sul 18fed o Ragfyr rhwng 3 a 7 o'r gloch y prynhawn. Bydd dros 25 o stondinau yn cynwys cynhyrchwyr bwyd a diod lleol, celf, crefftau, gemwaith, iechyd a harddwch, blodau a llawer mwy. Bydd Siôn Corn yn ymweld rhwng 4 a 6 o'r gloch ac fe fydd bwrdd crefft i ddiddori'r plant tra bod rhieni yn cael cyfle i siopa. Bydd lluniaeth ar werth gan PATRASA – diodydd ysgafn, te, coffi a gwin twym a mwy.

Dewch yn llu i gefnogi'r Parc ac i wneud siopa Nadolig funud olaf.

## Newid aelwyd

Dymuniadau gorau i Eileen Rowlands sydd wedi symud o Glan Ceulan i Ger-y-llan.

## Merched y Wawr

Ar y 10fed o Dachwedd aeth dros 20 o aelodau i Westy'r Marine yn Aberystwyth i ddathlu 40 mlynedd ers sefydlu Cangen Merched y Wawr Penrhyn-coch. Cyn y bwyd tynnwyd llun i gofnodi'r noson o'r holl aelodau gan Eirian Reynolds a diolch iddo am ei amser. (Gwelir y llun ar glawr Tincer Tachwedd).

Roedd y noson yng ngofal Glenys Morgan a Sharon Jones gyda Glenys yn cyflwyno'r noson a Sharon yn gwneud y rhan fwyaf o'r trefniadau gan wneud llyfryn o gofnodion y misoedd cyntaf 40 mlynedd yn ôl a chopi o bob cerdyn aelodaeth y Gangen o'r dechrau. Ein diolch mawr i Sharon am ei holl waith caled yn trefnu'r noson.

Ein gwraig wadd am y noson oedd ein Llywydd Cenedlaethol , Sandra Morris Jones o Fronnant. Dysgodd Sandra Gymraeg ar ôl symud i Lanwrda pan yn ifanc ac ymddiddori yn yr iaith a'r gymdeithas a'r Ffermwyr Ifainc ac yna mynd ymlaen i fod yn athrawes Gymraeg cyn ymddeol o Ysgol Pen-glais. Cafwyd araith llawn hwyl ac egni ganddi am ei bywyd a sut ddaeth i fod yn Lywydd Cenedlaethol Merched y



**Torri'r gacen**
Aldwyth Lewis, Elizabeth Evans a Mair Jenkins - Aldwyth a Mair yn aelodau gwreiddiol y gangen ac Elizabeth yn swyddog datblygu Ceredigion ac yn un o gyn Lywyddion y gangen

Wawr.  Ymfalchiwn fod ein Llywydd ym mlwyddyn dathlu 50 mlynedd y mudiad yn dod o Geredigion.

Cafwyd hefyd gwmni Tegwen Morris, y Trefnydd Cenedlaethol, ac Elizabeth Evans, ein swyddog datblygu a chafwyd areithiau pwrpasol gan y ddwy ohonynt hefyd. Cafwyd noson fendigedig yn hel atgofion dros yr amser.

Torrwyd cacen y dathlu gan  Aldwyth Lewis a Mair Jenkins, dwy o aelodau gwreiddiol y gangen ac Elizabeth Evans, y swyddog datblygu ac un o Gyn-Lywyddion y gangen. Derbyniwyd negeseuon i longyfarch y gangen gan Beti Wyn Davies, Llywydd cyntaf y gangen a Carwen Vaughan, un o aelodau cyntaf y gangen gan ymddiheuro ei bod yn methu ymuno gyda ni.

Derbyniwyd penillion i longyfarch y gangen gan un o'n haelodau – Mairwen Jones - a oedd yn methu bod yno gan ei bod newydd dderbyn llawdriniaeth.  Gobeithio ei bod yn gwella a'n dymuniadau gorau iddi hi. Dyma'r penillion:

**Dathlu Deugain Mlynedd Ers Sefydlu Cangen Merched y Wawr, Penrhyn-coch**

Merched y Wawr y Penrhyn yn dathlu
Deugain mlynedd o gyd-gymdeithasu,
Mae cofion melys am yr hyn a fu
Ac am gymeriadau a fu yn ein cwmni.
Ar hyd y blynyddoedd fe wnaeth pawb ei rhan
Ac yr ydym mor falch o'n cangen yn Penrhyn.
Diolch i bawb a fu yn llywyddu,
I'r ysgrifenyddion am eu gwaith i ryfeddu,
Y trysoryddion am gadw llygad ar yr arian
Ac i bawb a fu i'r gangen yn ffyddlon.
Diolch i bawb a fu yn diddori,
Bu pob achlysur yn werth ei drysori.
O'r cychwyn cyntaf mae wedi bod yn gangen hapus
Yn llawn brwdfrydedd, a gwneud hynny mor gampus.
Gobeithio fydd yna ddyfodol disglair eto i'r gangen
A bydd yna achlysur arall i gael cacen.
Hefyd dymunwn y gorau i MyW yn gyffredinol wrth iddynt ddathlu
Hanner can mlynedd ers cael ei sefydlu.
Felly heno, pan yn cael hwyl a sbri wrth ddathlu,
Llongyfarchwn yn arbennig Bawb, a chodwch eich gwydrau!

Mairwen (Tachwedd 2016)

Diolchwyd  i'r aelodau gan Mair Evans ac fe wnaeth Tegwen ddweud "Ymlaen i'r hanner cant."

Ar y nos Iau cyntaf o Ragfyr cafwyd cwmni Beti Wyn Davies, o Daliesin erbyn nawr, Llywydd cyntaf ein cangen.  Roedd y noson yng ngofal Mair Evans a Sharon Jones. Daeth Beti atom i ddangos ei chrefft o feltio gan ddefnyddio gwlân a'i drin yn y ffordd wlyb gyda dŵr a sebon. Dangosodd yr enghreifftiau cyntaf oedd wedi eu gwneud rhyw bedair blynedd yn ôl ac yna y ffordd roedd wedi datblygu ei chrefft gan wneud gwaith cywrain iawn. Gwelwyd nifer o eitemau lle mae wedi cael gwobrau yn y sioeau lleol ac yn y Sioe Frenhinol a'r Sioe Aeaf. Diolchwyd iddi am ddod atom gan Elisabeth Wyn am noson fendigedig.

## Pêl-droed Menywod

*Cwpan Canolbarth Cymru*
13 Tachwedd
Penrhyn-coch 3 Prifysgol Aberystywth 6
20 Tachwedd
Felin-fach 1  Penrhyn-coch 5

## Cangen Bro Dafydd Plaid Cymru

Cynhaliodd Cangen Bro Dafydd ei chyfarfod blynyddol yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch, nos Wener, 9 Rhagfyr. Roedd Owen Roberts wedi penderfynu ymddeol fel Cadeirydd, a diolchwyd iddo am ei waith dros sawl blwyddyn. Etholwyd Rhun Emlyn, Dôl Helyg, yn Gadeirydd yn ei le, ac ailetholwyd Richard Owen yn Ysgrifennydd a Haydn Foulkes yn Drysorydd.

Nodwyd fod y gangen wedi bod yn effeithiol yn dosbarthu taflenni yn yr ardal yn y misoedd yn arwain at etholiad y Cynulliad ym mis Mai, ac roedd pawb yn falch fod Elin Jones wedi ei hailethol yn Aelod Cynulliad dros Geredigion. Hefyd llongyfarchwyd hi ar ei hethol yn Llywydd y Cynulliad. Bu rhai aelodau o'r gangen yn weithgar hefyd yn y Refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd a gynhaliwyd ym Mehefin. Roedd Ceredigion yn un o'r pum sir yng Nghymru a bleidleisiodd o blaid aros, ond arall fu'r canlyniad drwy Gymru gyfan a thrwy'r Deyrnas Gyfunol. Hefyd fe gafwyd trafodaeth ar yr etholiadau i'r Cyngor Sir a fydd yn cael eu cynnal ddechrau mis Mai. Wedi hynny cafwyd sgwrs gan Dr Matthew Woolfall-Jones, sef yr un sydd wedi dilyn Owen Roberts fel pennaeth swyddfa'r Blaid yn Aberystwyth. Un o Bontypŵl yw Matthew yn wreiddiol, ac o deulu di-Gymraeg. Ond wedi cael addysg mewn ysgolion Cymraeg fe ddaeth i'r Brifysgol i Aberystwyth i astudio Drama. Fe raddiodd yma a chael doethuriaeth wedi hynny. Pwysleisiodd Matthew ei fod yn teimlo fod y Gymraeg wedi agor sawl drws iddo yn ystod ei yrfa hyd yn hyn. Dechreuodd gymryd diddordeb mewn gwleidyddiaeth pan oedd yn gwneud ei ail radd, a chafodd gyfle i weithio i'r Blaid yng Ngheredigion yn ystod ymgyrch Mike Parker ar gyfer etholiad 2015. Ar ôl hynny, bu'n gweithio i aelodau o'r Blaid yn y Cynulliad am flwyddyn, ac yna pan ddaeth y swydd yn Aberystwyth yn rhydd, roedd yn falch o gael y cyfle o ddychwelyd i Geredigion. Dymunodd aelodau'r gangen yn dda iawn iddo yn ei waith.

## Urdd y Gwragedd

Noson o osod blodau yng nghwmni Glenys Morgan .Penrhyn-coch, gafwy d mis Rhagfyr, ble dangosodd Glenys  yn ei ffordd ei hun sut i drefnu blodau mewn dull modern a thraddodiadol ar gyfer y Nadolig neu unrhyw achlysur arall, mewn ffordd oedd yn edrych yn syml iawn a diffws. Bu pedair o'r aelodau yn ffodus i ennill trefniant yr un i fynd adref gyda nhw ac yn plesio yn fawr iawn. Diolchwyd ar ran y gwragedd gan y llywydd i Glenys am noson bleserus iawn.





## Rhai o goed Gŵyl Coed Nadolig Penrhyn-coch 2016


Coeden Cyngor Trefeurig


Coeden Bore Coffi


Coeden Sefydliad y Merched


Coeden Horeb






Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 24 Tachwedd yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Siân Jones. Estynnwyd cydymdeimlad â'r Cyng. Owain Morgan ar farwolaeth ei dad yng nghyfraith yn ddiweddar. Mynegwyd tipyn o anniddigrwydd bod y seddau a bwrcaswyd o hyd heb eu gosod. Oherwydd rheolau diweddaraf Archwilwyr y Cyngor Sir, rhaid cael tri amcangyfrif cyn y gellir apwyntio ymgymerwr neu grefftwr i wneud gwaith yn y gymuned. Ond tristwch y sefyllfa yw nad oes neb eisiau'r gwaith. Does ryfedd fod cymaint o dramorwyr wedi cael eu gollwng i mewn i'r wlad pan fo pobl leol yn gwrthod gwaith. Bydd y clerc yn gwneud cais eto i nifer o ymgymerwyr i ymgeisio am y gwaith.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cynghorydd Paul Hinge ei fod yn targedu yr Adran Briffyrdd yn galed parthed problem parcio ar y ffordd i Gartref Tegerddan. Pwysleisiodd wrth rhyw swyddog anwybodus nad problem Tai Ceredigion oedd hon, ond ei adran ef gan eu bod wedi mabwysiadu y ffordd flynyddoedd yn ôl!

Pedwar mis sydd ar ôl o'r flwyddyn ariannol gyfredol ac nid oes fawr o symud parthed llwybr y Dolau i Rydypennau. Cafwyd addewid y buasai rhan gyntaf y prosiect yn cael ei chyflawni yn y cyfnod yma, cyn symud ymlaen wedyn tuag at tro Dolgau. Dywedodd y Cyng Hinge fod llythyron eitha siarp yn pasio rhwng yr adrannau, ac yntau ar hyn o bryd.

Dywedodd y bydd cyfarfod o PACT yn Neuadd Rhydypennau am 7pm ar 4ydd Ionawr. Yr oedd yn falch o ddweud fod y gwaith o glirio llanastr wedi'r storm yng Nghlarach yn mynd yn ei flaen cystal ag y gellir disgwyl.

Mae rhai o drigolion Maes Ceiro yn poeni os oesoedd mynediad i'r tyllau archwilio (manholes) ar dir sydd wedi ei gau i mewn ar waelod yr ystad. Mae hefyd achwyn am gi peryglus sydd yn eiddo i un o drigolion ochor ddeheuol yr ystad. Gwneir ymholiadau priodol.

Mae trefniadau mewn llaw i osod y Goeden Nadolig ger yr ysgol, ac mae'r Cyngor wedi pwrcasu goleuadau. Telir £408 i Mr William Jones am atgyweirio ffens y cwrt chwarae ym Mryncastell.

Bydd y cyfarfod nesaf fydd 26 Ionawr pryd y byddwn yn llunio'r Gyllideb ar gyfer 2017/18 ac yn ymateb i geisiadau am gefnogaeth ariannol gan fudiadau lleol.

Dymuna'r Cyngor Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion ardal y Tincer.

# Myfyrdod Nadolig

*Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,*
*Syndod mawr yng ngolwg ffydd!*



Mae'r geiriau hynny gan Ann Griffiths yn bloeddio'n llawen yn yr un ffordd â phennawd mewn papur newyddion neu *strap-line* symudol ar waelod sgrîn deledu. Maen nhw'n paratoi'r ffordd inni glywed Newyddion Da – ond gydag elfen gref o sioc, hefyd. Dw i'n credu ei bod hi'n her fawr inni i afael yn y sioc ynglŷn â neges yr angylion – ni sy'n byw mewn cymdeithas sydd yn ystyried ei hun i fod yn gyfarwydd â'r stori Nadolig! A dyma'r her: i weld yn rhywbeth mor naturiol â geni baban rhywbeth goruwchnaturiol, unigryw a lle arbennig; man cyfarfod Duw â dynolryw.

Ond dyma beth mae llawer o garolau a chaneuon plygain yn ceisio ei fynegi: y syndod mawr. Syndod bod tre mor anhynod â Bethlehem, wedi'i chuddio yng nghanol bryniau Iwdea, ymhell i ffwrdd o lysoedd y rhai pŵerus, yn cael ei dewis gan Dduw ar gyfer y fath achlysur arbennig. Syndod mai bugeiliaid oedd y bobl gyntaf i glywed neges mor rhyfeddol – byddai bugeiliaid yn isel iawn eu parch oherwydd yr enw oedd iddynt fel lladron. A syndod hefyd bod Duw wedi mynd ati i waredu'r ddynolryw trwy ddod yn ddyn ei hun.

*O wele'r bod sy'n dal y byd,*
*Yn fud ar lin ei fam*

Yng ngeiriau'r emyn gan John Thomas, Pentrefoelas. Ac mae e'n mynd yn ei flaen i ddisgrifio ymgnawdoliad Duw gan fenthyg geiriau Iesu, 'cyn geni Abraham, Myfi yw':

*Newydd ei eni'n nawdd i ddyn,*
*Yn hŷn nag Abraham.*

Mae'n her inni eleni, a phob blwyddyn yn wir, i gymryd amser i roi ein haddoliad yng nghanol prysurdeb y tymor. I addoli'r Gwaredwr yn ein calonnau a'n cartrefi yn ogystal â mewn capel neu eglwys; i glywed lleisiau'r angylion, fel petai, yn fwy clir na sŵn y teledu, ac i weld gogoniant Duw yn fwy disglair na'r goleuadau lliwgar yn y siopau.

*Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,*
*Syndod mawr yng ngolwg ffydd!*
*Rhoddwr bod, cynhaliwr helaeth*
*A rheolwr popeth sydd,*
*Yn y preseb mewn cadachau*
*A heb le i roi'i ben i lawr;*
*Eto disglair lu'r gogoniant*
*A'i haddolant ef yn awr.*

**Y Parchg Andrew Loat**

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gareth ac Alice, Y Capel, Aber-ffrwd ar enedigaeth merch fach. Cafodd Branwen ei geni adref yn y Capel ac mae Gwenan a Ianto wrth eu bodd gyda'u chwaer fach newydd. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

### Llwyddiant yn y Sioe Aeaf

Llongyfarchiadau i Cerys a Rhian Burton, wyresau Ty-poeth ac Elain a Sara Jenkins, wyresau Dolgamlyn ar eu llwyddiant yn adran y crefftau yn y Sioe Aeaf yn Llanelwedd. Sicrhaodd y bedair y wobr gyntaf yn eu gwahanol gystadlaethau. Da iawn chi a daliwch ati!

### Clwb Rheidol ac Urdd y Benywod

Trefnwyd noson gymdeithasol ar y cyd yn Adeiladau Ty-Llwyd, pryd y cafwyd gêmau o snwcer a hefyd croesawyd dau fachgen o Wlad y Basg. Mae y ddau Tonis a Taavet yn treulio amser ar brofiad gwaith gydag Alice a Louise yn Troedrhiwsebon. Gyda chymorth Adrian sydd yn cartrefu yn yr hen dŷ yn Troedrhiwsebon cawsom ein diddanu gyda chaneuon traddodiadol o'u mamwlad. Orig hyfryd dros ben. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn a diolch i John a Carol Marshall a Lorraine Maloney am drefnu y noson.

## Nadolig 2016

A'r byd yn troi'n rhy gyflym
A gwallgofiaid wrth y llyw,
Daw adnod swil o gefn y cof:
Duw, cariad yw.

**Huw M Edwards**



## Adfent

Y forwyn ddirodes, y decaf Iddewes
Â serch yn ei mynwes, mae hanes o hyd
Amdani'n trymhau a'r byd yn ei hamau
Ond yr Iesu'n cryfhau i boenau y byd.

Cans ef oedd y bychan yng nghroth y Mair wiwlan
Pob camwedd gorchfygai pan ddeuai yn ddyn,
O gyfrin genhedliad, anfedrol y cariad,
A dilyn ei alwad fydd bwriad pob un.

O blannu y Duwdod fe'n hachub rhag pechod
I'n cynnal mewn trallod i ganfod y Gair
O! Nawmis cynhyrfus o ddwyfol ewyllys
A'r ysbryd yn tywys yn felys i Fair.

Ar gri y waedd gyntaf o'r beudy distadlaf
Daeth llais y Goruchaf drwy'r gwanaf i ni
Mawrygwn yr addfwyn dad Joseff ddiwenwyn,
Mawrygwn Mair forwyn, Mam hyfwyn fu hi.

**Vernon Jones**



# Y BORTH

### Ysgol orau Prydain!

Gwelwyd yn y wasg yn ddiweddar mai Ysgol Plasmawr ddaeth allan fel yr Ysgol uwchradd orau ym Mhrydain yn ôl y *Sunday Times*.


Ysgol Plasmawr yw ail ysgol gyfun ddwyieithog Caerdydd – a'r pennaeth yw John Hayes, fagwyd yn y Borth. Llongyfarchiadau mawr iddo!

### Penodi yn Lysgennad

Llongyfarchiadau mawr iawn i Rhys Hedd sydd wedi cael ei benodi fel un o Lysgenhadon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

### Llyfr newydd

Cyhoeddwyd yn ddiweddar gyfrol gan awdur sydd yn treulio rhan o bob blwyddyn yn y Borth.
Diarmuid Johnson *Pen and Plough - 20th Century Poets and Bards of Ceredigion* Gwasg Carreg Gwalch, 2016 196t. £8.50




Ganwyd Diarmuid Johnson yng Nghaerdydd – roedd ei fam yn Gymraes o Dregaron – ond fe'i magwyd ac aeth i'r ysgol yn Galway, Iwerddon a bu'n byw yno am bum mlynedd . Dychwelodd i Gymru dros ddeng mlynedd yn ol ac mae yn byw yn y Borth.

Mae'r gyfrol yn astudiaeth o newidiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yng Ngheredigion yn yr ugeinfed ganrif, fel y'i cofnodwyd gan feirdd y Gymru Gymraeg rhwng 1933 a 2012. Gwaith beirdd lleol yn ystod yr ugeinfed ganrif – rhai yn adnabyddus – fel beirdd y Cilie; beirdd coronog – Dic Jones, W J Gruffydd, John Roderick Rees, a hefyd feirdd eraill – B T Hopkins, J M Edwards a rhagor. Dehonglir eu gwaith a disgrifir y newidiadau cymdeithasol sydd yn cael eu darlunio yng gwaith y beirdd.

Arferai mam Diarmuid sôn wrtho am fyd amaethyddol cefn gwlad Ceredigion felly bu hyn yn rhan o'i gefndir erioed. Pan ddychwelodd i Gymru roedd yn gweld fod newidiadau wedi digwydd – rhyw daith i asio yr hen a'r newydd yw y daith trwy'r farddoniaeth sydd wedi esgor ar astudiaeth eithaf manwl o'r ganrif.

Mae'n rhoi gwaith y beirdd a llenyddiaeth Cymru mewn cyd-destun Ewropeaidd ar ôl treulio nifer o flynyddoedd yn gweithio mewn gwledydd fel Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Pŵyl a Romania. Yn y rhagymadrodd caiff yr iaith Gymraeg ei chymharu gydag ieithoedd y cyfandir.

Cafodd ei swydd gyntaf yn Llydaw – yno y ganwyd ei ddwy ferch – a'u haddysgu yn Iwerddon ond mae y ddwy yn byw ym Mharis erbyn hyn. Treulia haf yn Iwerddon, mae yn mynd i UDA ym Mawrth a daw i'r Borth am gyfnodau. Mae'r cerddi Cymraeg wedi eu haralleirio yn y gyfrol – ond gobeithia gyhoeddi rhai cerddi yn unigol yn y dyfodol. Cyhoeddodd hefyd sawl casgliad o farddoniaeth mewn Gwyddeleg a Saesneg ac mae yn awdur a chyd-awdur sawl cyfrol o gyfieithiadau o lenyddioraeth Gymraeg i'r Wyddeleg, Saesneg, Ffrangeg a Romaneg.

Bu'n Athro gwadd i helpu sefydlu Adran Astudiaethau Celtaidd yn y Brifysgol yn Poznań yng Ngorllewin Gwlad Pwyl – hanner ffordd rhwng Berlin a Warsaw.

Mae Diarmuid Johnson eisoes wedi cyhoeddi dau lyfr arall yn y Gymraeg *Y Gwyddel*, Gomer 2010, sy'n sôn am ei ieucnctid yng ngorllewin Iwerddon a *Tro ar Fyd*, Y Lolfa 2013 sydd yn sôn am ei deithiau yn nwyrain Ewrop ac ymhellach. Ac y cyd â'i wraig Amanda Reed. Bu'n darlithio yn y Brifysgol yng ngwlad Pŵyl am dair blynedd a wedyn bu'n byw fel cerddor a gohebydd llawrydd yn Romania. Mae'n canu'r ffliwt ac yn hoff iawn o gerddoriaeth traddodiadol Iwerddon a pherfformio gyda beirdd eraill.

Dyma y tro cyntaf iddo ysgrifennu llyfr am waith pobl eraill ac mae yn teimlo ei fod yn rhoi Ceredigion ar lwyfan y byd.

### Nol gartref

Mae ffrindiau a theulu Sadie (Richmond) mor falch ei bod nol yng nghartref y teulu ar ol cyfnod hir yn yr ysbyty.

### Pen blwydd Hapus

Pen blwydd hapus i Ffion Rose Edwards, Arequipa fydd yn 19 ar Ragfyr 14eg. Mae ar hyn o bryd ar ei blwyddyn gyntaf yn darllen Saesneg a chyhoeddi ym Mhrifysgol Plymouth.

### Ysgol Sul St Matthew

Bydd Ysgol Sul Eglwys St Matthew yn perfformio drama'r geni yn y gwasanaeth yn yr eglwys ar Ragfyr 18fed Mae'r ysgol Sul yn hynod boblogaidd gan blant y pentref.

### Gerddi Cymunedol y Borth

Mae gan y Gerddi dudalen newydd ar y we http://gerddicymunedol.blogspot.co.uk/ Yn ogystal â newyddion, digwyddiadau a diweddariadau pwysig i arddwyr, bwriedir iddi fod yn fforwm ddefnyddiol i sgwrsio am arddio ac efallai am gyfnewid eginblanhigion a bod yn adnodd cofnodi bywyd gwyllt. Mae y gerddi wedi ffynu eleni ac mae y wahanfa ddŵr drawiadol yn werth ei gweld. Mae croeso i bawb o'r cyhoedd a daw rhandiroedd yn rhydd o dro i dro – os ydych â diddordeb cysylltwch gyda Lin ar 871386. Fe'i lleolwyd y tu cefn i eglwys St Matthew ac maent yn rhan ffurfiol o fferm Ynys Fergi. Mae'r garddwyr cymunedol yn hynod ddiolchgar i'r ffermwr, Owen Jenkins, am ei gefnogaeth barhaol.






# Taith gerdded y mis

## Tabor i'r Hafan

**Man dechrau**: Ochr y ffordd ger adfael Tabor.
**Map**: OS 213. GR 763885.
**Pellter**: 3.6 milltir. Cymedrol, ond serth lan yr inclên.




Dilyn y ffordd tuag at chwarel yr Hafan, a chadw i'r chwith heibio'r llyn bach ac ar hyd y feidr nes cyrraedd croesffordd. Troi i'r dde heibio adfaelion Ffosfudr ac ymlaen a lawr i gwrdd ar hen reilffordd (Hafan i Aberystwyth). I fyny'r inclên ac i'r chwarel ac yn ôl i'r man dechrau.

**Cronfa Eleri**
**Blwyddyn 2016 – dros £17,000 i'w rannu**
Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa
Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
**Tel:** 01970 832551 **e-bost**: ymholiadau@cronfaeleri.com
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 16eg 2017**
**Amcanion Cronfa Eleri**
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf Awst a Medi
01970 820 050
Pennau

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

# CLARACH

### Dyrchafiad

Llongyfarchiadau i Nerys Fuller-Love, Yr Hen Ficerdy, am gael ei gwneud yn ddarllenydd yn yr Ysgol Fusnes, Prifysgol Aberystwyth.

### Sioe Radio


Mae dau gyfaill a fagwyd yn yr ardal yn cyflwyno sioe radio ar Radio Cymru Mwy tan ddiwedd y mis. Gofynnwyd i'r ddau roi ychydig o'u hanes ers gadael yr ysgol. Clywir y rhaglen am ddwy awr ar foreau Gwener.

**Dylan**

Ar ôl graddio o Gaerdydd â gradd yn y Gymraeg yn 2014, dychwelais am sbel i Langorwen, cyn mynd i deithio ar draws De America am ryw bum mis yn y flwyddyn newydd. Dychwelais i Aber i weithio gyda Four Cymru a mwynhau byw gartref tan symud i Gaerdydd yn Ionawr eleni. Mae Caerdydd wedi bod yn grêt. Cychwynnais weithio gydag adran ddigidol S4C yn yr Haf a dwi'n cael llawer o hwyl yno. Dwi hefyd yn DJo yn achlysurol mewn gigs a chlybiau yn y ddinas o dan yr enw DJ Hubert von Herkomer. Yn ogystal, mae Tom a finnau'n cynnal cwisys misol yn yr Hen Lyfrgell yn ogystal â chwis wythnosol ar foreau Gwener ar Radio Cymru Mwy. Daeth hynny i uchafbwynt gyda ni'n cael ein sioe ein hunain ar y sianel am dair wythnos, rhwng 10 a 12 ar foreau Gwener - mae modd gwrando yn ôl ar y penodau ar BBC iPlayer. Er bod Radio Cymru Mwy yn dod i ben ar ddiwedd y mis, gobeithia'r ddau ohonom y bydd modd parhau i weithio yn y byd radio ond ar hyn o bryd, does dim byd yn swnio'n well na dod 'nôl i Aber ar gyfer y Nadolig!

**Tomos**

Yn wreiddiol o Bow Street ac yn byw cyferbyn â Neuadd Rhydypennau, mae gennai atgofion melys o fynd draw i Ieu y bwtchwr a phrynu losin pan yn ifanc. Erbyn heddiw rwy'n byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio fel cofrestrydd i Gyngor Caerdydd, swydd bydden i byth wedi dychmygu ei gwneud pan yn yr ysgol. Pob dydd mae rhywbeth gwahanol yn dod trwy'r drws, naill ai cofrestru plentyn, marwolaeth neu briodas. Hefyd byddai'n helpu fy ffrind a fy nghydletywr Dylan gyda chwis misol yn yr Hen Lyfrgell, a mis diwethaf cawsom raglen ein hunain ar Radio Cymru Mwy oedd yn llawer o sbort. Un atgof o'r sioe yw bwyta creision am y tro cyntaf yn fy mywyd; - yn fy marn i roedd y foment yn gonglfaen Radio Cymraeg. Gallwch chi ddal i wrando ar y sioe ar iPlayer... Byddaf yn dal i fyw yn y brif ddinas y flwyddyn nesaf ac yn parhau fel cofrestrydd, gyda'r gobaith o fod y cofrestrydd fydd yn priodi fy chwaer a'i chariad ym mis Mai. Hefyd bydd y cwis misol nôl yn y flwyddyn newydd, ar ôl un Nadoligaidd lle byddaf fi a Dylan yn ymgeisio cân jingle yn fyw! Joio!



## Nadolig eleni

O'n digonedd digyni – rho seren
i'r Syriad eleni
wêl wn heb weld goleuni –
nid angen yw'n hangen ni.

**Anwen Pierce**

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Dilynwch y Tincer ar Trydar
**@TincerY**

Y MAES
BANGOR ARMS
Jason a Charlotte
Diod a bwyd traddodiadol
Mawrth - Sadwrn
9-11 yr hwyr
Y Sul
11 y bore-11 yr hwyr
Brecwast
Cinio drwy'r dydd,
a chinio dydd Sul
Croeso cynnes
01970 880621

**CIC Tymor y Gwanwyn 2017**
5 19 Ionawr
2 16 Chwefror
2 16 30 Mawrth

Plant blynyddoedd 4 a 5, rhwng 6-7 o'r gloch; 6, 7, 8 a 9, rhwng 7-8.30 yn Neuadd Rhydypennau

# Llun y mis

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.
Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



Wedi'r storm






Meinir Edwards (golygydd, Y Lolfa) yn cyflwyno *Tywydd mawr mewn lluniau*: Extreme weather in Wales i'r awdur Iestyn Hughes.


Llyfr anrheg delfrydol ar gyfer pawb sydd yn ymddiddori yn y tywydd. Mae dros 100 o ffotograffau llawn lliw o bob tywydd – eira mawr, llifogydd, gwyntoedd, stormydd, sychder – ac yn cynnwys testun a lluniau am yr hinsawdd a darogan tywydd. Mae tywydd anwadal, amrywiol Cymru yn bwnc trafod bob dydd!
Iestyn Hughes *Tywydd mawr* Y Lolfa 144t. £14.99

# Cystadleuaeth Nadolig

**Cyfle i ennill** **3 gwobr**
Tocyn llyfr £20
copïau o *Allez les Gallois* (Carreg Gwalch) a *Y gwreiddyn* (Y Lolfa) - dwy gyfrol gan awduron lleol trwy garedigrwydd y gweisg.




Gyrrwch eich atebion i Gareth W. Jones, Hafle, Penrhiw, Bow Street, Ceredigion, SY24 5BA neu trwy ebost i gwjones99@aol.com cyn dydd Llun Ionawr 9fed 2016

Bydd darllen y daflen **Gwledd Y Nadolig** oedd yn Y Tincer mis Tachwedd o gymorth i chi.

1. Beth yw'r cysylltiad rhwng ardal Y Tincer a jwg ar seld?
2. Beth yw'r cysylltiad rhwng Cwmderi a'r hogyn o'r Felin?
3. Pa fedal roddodd Cai i Eurig?
4. Pwy ysgrifennodd am griw yn Dysgu byw?
5. Pwy aeth o'r bwthyn at y gwreiddyn?
6. Pwy fu'n tynnu lluniau i'r Herald?
7. Pwy sydd wedi bod yn lolian dros yr hanner canrif diwethaf?
8. Pwy ofynnodd am ibuprofen mewn Ffrangeg?
9. Pwy oedd y llestr bregus?
10. Super Furries, Prins Seeiso, Miss Siberia - a fi. Pwy yw fi?

Sylwer : Os bydd mwy nag un cystadleuydd yn gyfartal yna rhoddir eu henwau yng nghap y Golygydd a thynnir un enw allan.

## CD newydd SORELA




Bydd CD newydd Sorela yn cael ei chyhoeddi **dydd Llun 19 Rhagfyr** – mewn pryd i'r Nadolig

# Colofn Enwau Lleoedd

Rŷn ni'n hen gyfarwydd â'r elfennau *uchaf*, *isaf*, *canol*, *mawr*, *bach*, ac ati, fel dull o wahaniaethu rhwng ffermydd sy'n rhannu'r un enw. Mae digon o enghreifftiau i'w cael yn ardal y Tincer: *Goginan Fawr* a *Goginan Fach* ar y gefnen rhwng pentrefi Goginan a Chwmerfyn, a *Ffosygrafel Uchaf* a *Ffosygrafel Isaf* rhwng Llangorwen a'r Borth, i enwi ond rhai. Ond yma carwn edrych ar ddwy elfen sydd o bosibl ychydig yn fwy dieithr.


Er mwyn creu cronfa Nant y Moch yn y chwedegau, boddwyd nid yn unig fferm a chapel Nant-y-moch yn nyffryn Afon Rheidol, sef cangen ddwyreiniol y llyn, ond yn ogystal adfeilion rhai lluestai bychain yn nyffryn Afon Camdwr, y gangen orllewinol.

Diflannodd *Camdwr Mawr* a *Chamdwr Bach* yn gyfan gwbl o dan ddŵr, ac er bod safle *Camdwr Biti* yn dal ar dir sych ar lan y gronfa, does fawr iawn o ôl y lluest yn weddill heddiw. Ond mae'n werth oedi gyda'r enw olaf hwn.

Digwydd y cofnod cynharaf y gwn i amdano, *Camddwr Bytty*, yng nghofrestr plwyf Llanbadarn Fawr yn 1817. Ceir enghreifftiau pellach mewn adroddiadau papur newydd o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn y ffurfiau *Camdwr Bitty* a *Chamdwr Betty*. Ymddengys hefyd ar fapiau'r Arolwg Ordnans.

Ond beth yw'r elfen olaf? Ffurf amrywiol yw *biti* ar yr ansoddair *bitw* neu *pitw* sy'n golygu 'tila, dibwys, bychan iawn'. Ni wyddom eu tarddiad i sicrwydd, ond digwydd *biti* a *bitw* yn nhafodiaith Morgannwg yn yr ystyr 'bach iawn'. Gellir casglu felly bod y lluest hon yn llai o ran maint neu'n fwy di-nod na hyd yn oed *Camdwr Bach*!

Yn y gyfrol *Place-Names of Cardiganshire* (t. 1132) mae Iwan Wmffre yn dwyn cymhariaeth â'r enwau *Foel-fawr*, *Foel-fach*, a *Foel-fitty* (*moel+biti*) yn Llannewydd, sir Gaerfyrddin.




*Map 1:25000 yr Arolwg Ordnans, 1948.*
*Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban*

Am yr ail elfen dan sylw, fe drown ein golygon at lawr gwlad, ac i ardal Rhydypennau. Yno ceir casgliad o ffermydd yn rhannu'r un enw, sef *Bryngwyn Uchaf*, *Bryngwyn Canol*, *Bryngwyn Isaf* a *Bryngwyn Bach*. Er na wn am enghraifft ysgrifenedig ohono, yr enw llafar lleol am *Fryngwyn Bach* yw *Bryngwyn Bit*.

Mae'n lled sicr mai amrywiad ar *bitw* neu *biti* sydd yma, ac mai disgrifiad ydyw o le bychan, di-sylw.

Gellir cymharu'r casgliad hwn o enwau â'r anheddau *Gelli Du Fawr*, *Gelly Du Fach* a *Gelli Du Bit* a gofnodir yn rhestri'r Mapiau Degwm ym mhlwyf Llanddarog, sir Gaerfyrddin.

Angharad Fychan

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**

# BOW STREET

## Suliau

**Garn**

10.00 a 5.00

Gweler hefyd www.capelygarn.org/

*Rhagfyr*

18 Bugail

25 9.00 Oedfa'r Nadolig

*Ionawr*

1 Elwyn Pryse (Oedfa'r bore yn unig)

8 Rhidian Griffiths

15 Bugail

22 John Tudno Williams

29 Lyndon Lloyd (Oedfa'r bore yn unig)

**Noddfa**

*Rhagfyr*

18 Trefn Lleol am 10.00

24 Gwylnos Noswyl Nadolig am 11.30 yr hwyr

25 Uno yn y Garn am 9.00

*Ionawr*

1 Uno yn y Garn am 10.00

## Merched y Wawr Rhydypennau

Ar nos Lun 14 o Dachwedd croesawodd Ann Jones, ein llywydd, ni yn gynnes i'r cyfarfod – yn enwedig Glenys Morgan. Aeth Ann Jones, Mary Thomas, Bethan Hartnup a Janet Roberts i'r Cwis Hwyl a gynhaliwyd yn Nhŷ Glyn Aeron ar Dachwedd 11. Daethant yn drydydd yn y Rhanbarth! Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Aeth Ann drwyr ohebiaeth dderbyniwyd o'r Ganolfan.

Glenys Morgan o Benrhyn-coch oedd ein gwraig wadd heno. Merch brysur iawn yn ei chymuned. Dangosodd inni sut i wneud cardiau unigryw gyda stribedi o bapur. Cawsom ninnau gyfle i ddangos ein doniau! Diolchwyd i Glenys gan Shân Hayward.

Jean Davies a Ceris Jones oedd yng ngofal y te. Enillwyd y raffl gan Margaret Roberts.

## Croeso

Croeso i Hawys ac Owain Roberts, Erin a Beca sydd wedi symud o Aberystwyth i Garn Wen. Mae Owain ar staff y Llyfrgell Genedlaethol a Hawys yn Brif Swyddog Cyfathrebu Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

## Capel y Garn

*Paned a Chlonc y Nadolig*

Cynhaliwyd bore coffi Cymdeithas y Chwiorydd yn festri'r Garn fore Sadwrn, Tachwedd 26ain. Wrth dorri'r Gacen Adfent i ddynodi dechrau tymor y Nadolig, diolchodd y Gweinidog, y Parchg Wyn Morris yn gynnes i Gartref Tregerddan amdani, yna rhannwyd y darnau rhwng pawb. Yn ogystal â chyfle i sgwrsio a mwynhau paned a mins peis roedd yno stondin o gynnyrch cartref danteithiol, cyfle i brynu cardiau Nadolig yr Ysgol Sul a'r cwis ffotograffau gan Iestyn Hughes sydd wedi dod yn draddodiad bellach. Lluniau o ugain o addoldai Cymru oedd dan sylw eleni a Dewi a Nerys Hughes lwyddodd i adnabod y nifer fwyaf ohonyn nhw. Ar ôl tynnu raffl helaeth a gwneud y symiau i gyd gwelwyd ein bod wedi casglu £450 i'w rhannu'n gyfartal rhwng Calonnau Cymru a Chapel y Garn.

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Glenys a Robert Matthias, Maes Afallen, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf – ganwyd mab – Ethan i Kelly y ferch a Damian sydd yn byw yn Wrecsam); hefyd i Philip ( ddaw o Bow Street yn wreiddiol) a Ffion Hatfield, Bont-goch, ar enedigaeth Sara Lois, chwaer fach newydd i Osian. Da deall fod Sara Lois adref o'r ysbyty ac yn gwella.

## Cam yn nes i ailagor Gorsaf Bow Street

Ar 6 Rhagfyr cyhoeddodd Ysgrifennydd yr Economi, Ken Skates, y gall Bow Street gael gorsaf drenau a chyfnewidfa newydd, gan gynnwys maes parcio a safleoedd bysus, os bydd Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus gyda'i chais i ran-ariannu'r prosiect.

Gwnaed cais am £6.8 miliwn i Lywodraeth y DU drwy'r gronfa gorsafoedd newydd, ac mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi talu'r costau i ddatblygu'r prosiect at y cam yma. Esboniodd Ysgrifennydd yr Economi, Ken Skates:

"Rydym wedi cyflwyno cais cryf am 75% o gost y prosiect arfaethedig, y mwyafswm a ddarperir o gyllid Llywodraeth y DU. Rydym wedi'i gwneud yn glir y byddwn yn darparu'r gweddill er mwyn sicrhau ei




**Beth fydd enw yr orsaf newydd? Gweler Colofn Elin Jones t.7**





fod yn cael ei gwblhau – £1.7 miliwn, gan gynnwys gwariant hyd yma.

"Rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn â'r awdurdod lleol, grwpiau buddiant lleol a'r diwydiant rheilffyrdd i sicrhau bod cynigion yn arwain at ddatblygu'r orsaf a'r gyfnewidfa, gan ddechrau gwaith ym mis Ebrill 2018. Bydd yn weithredol i deithwyr yn 2019.

"Mae gan Bow Street achos economaidd cryf. Bydd yn cyfrannu at dwf a chyflogaeth yng nghanolbarth Cymru a bydd yn gwella mynediad at gyfleusterau megis Prifysgol Aberystwyth, Ysbyty Bron-glais a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd y prosiect arfaethedig hefyd yn ategu datblygiad campws newydd Prifysgol Aberystwyth gerllaw."










# LLANDRE

### Llyfr newydd

Lleucu Roberts
*Jwg ar seld* Y Lolfa
144t. £7.99




Ym mis Tachwedd cyhoeddwyd cyfrol arall gan Lleucu Roberts. Mae *Jwg ar seld* yn gyfrol o wyth o straeon byrion, a gwahanol agweddau ar Gymreigrwydd yn thema ganolog iddynt ac yn eu cysylltu. Mae'r straeon byrion am gymeriadau sy'n rhychwantu sawl haen gymdeithasol ac oedran gan ddarlunio, er enghraifft, y gwrthdaro rhwng y Gymraeg academaidd a llawr gwlad; rhwng gogledd a de; iaith/hunanlywodraeth; rhwng cenedlaethau – plant sy'n Gymry Cymraeg yn magu wyron diGymraeg; cyfryngau sathredig bas heb arweinwyr ar yr iaith, a diffyg cyfeiriadaeth ieithyddol a diwylliannol; israddoldeb vs allblygrwydd ieithyddol – materion anodd nad eir i'r afael â nhw'n aml yn ein llên, o bosib.

### Dyrchafiad

Llongyfarchiadau i'r Athro Wini Davies, Nant y Deri, ar gael Cadair yn yr Adran Ieithoedd Modern ym Mhrifysgol Aberystwyth.

### Noson Banc Bro 'Carol a Channwyll'

Ar noson oer ond sych ar ddechrau Rhagfyr daeth cynifer dda o gymdogion Llandre at ei gilydd i ganu carolau yn y Parc cyn gorymdeithio i Ysgoldy Bethlehem i'r Ffair Nadolig a agorwyd gan y Bonheddwr Sulwyn Thomas, Caerfyrddin. Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n nghlwm a'r amrywiol agweddau o'r noson. Bydd elw o £500 a godwyd yn ystod y noson yn cael ei drosglwyddo i Sulwyn sy'n Gadeirydd Llyfrau Llafar Cymru, ein helusen am eleni.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwynfryn ac Eryl Evans a'r teulu ar farwolaeth brawd yng nghyfraith Gwynfryn – Bryn Edwards yn Llanuwchllyn yn ddiweddar.

### Clwb 50 Banc Bro Genau-Glyn

*Enillwyr Mis Rhagfyr*

1 Gareth Jones
2 Mr a Mrs H Davies
3 Iestyn Hughes

Cofiwch ymaelodi yn y flwyddyn newydd erbyn Ionawr 31ain 2017. Cysylltwch â Lynwen neu Richard ar 822322 am fwy o wybodaeth. Diolch i bawb am eich cefnogaeth. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

### Merched y Wawr Llandre

Cawsom ein diddori gan Rwth Jên o Dal-y-bont a ddangosodd i ni sut oedd gwneud cardiau Nadolig nos Lun Tachwedd 21. Aeth pawb ati yn frwdfrydig iawn a chawsom lot o hwyl Gorffenwyd y noson gyda disgled o de.





# DOLAU

Estynnwn ein cydymdeimlad gydag Iwan M. Jones, Garmon a Julie, a Deiniol; a'i chwiorydd Nia a Glesni a'u teuluoedd ar farwolaeth Eiry, Dolau-gwyn ar ôl dioddef o ganser ers pum mlynedd. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth ddydd Gwener Rhagfyr 2. Derbyniwyd rhoddion at Gyfeillion Ysbyty Bron-glais, trwy law Gwyn Evans, Trefnwyr Angladdau, Llandre.

Dyma deyrnged Meinir Lowry (née Hughes) – un o dair a draddodwyd yn yr angladd.

Diolch am y fraint a'r cyfle i rannu ychydig o atgofion dyddiau ysgol. Dim ond un lle sydd i ddechrau – Ysgol Rhydypennau. Fan hyn aeth Eiry a fi yn bedair oed. Fan hyn y dysgon ni ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg, dysgu'r tablau a gwneud syms, hanes, daearyddiaeth a llawer mwy. Cael ein trwytho mewn llên a barddoniaeth – darnau sydd yn fyw yn y cof hyd heddiw. Dyma lle magwyd cyfaredd Eiry at eiriau a chywirdeb iaith, dybiwn i.

Tri dosbarth oedd yn yr ysgol – yr Infants, tiriogaeth Miss Dilys Morgan. Roedd hwn yn lle braf – tân mawr a Miss Morgan yn sychu'n cotiau ar y 'guard' ar dywydd gwlyb. Ymlaen i'r stafell ganol – Miss Nellie Davies oedd yr athrawes fan hyn. A'r stafell dop, stafell y prifathro, Mr E. D. Jones – Gaff i rai, sgwlyn i eraill, ond Dad i Eiry. Cegin yn y cefn dan reolaeth Mrs Ifans y cwc, gyda help Mrs Jones, Tŷ'n Rhos fach. Toiledau allan yn yr iard a'r rheiny wedi rhewi ar dywydd garw. Cymraeg oedd iaith yr ysgol a'r iard chwarae.

Rhaid i fi sôn am un achlysur bythgofiadwy yn y cyfnod yma – perfformio opereta'r *Blodyn Glas*. Hyd y cofia i, roedd bron pob plentyn yn yr ysgol, ar wahân i'r rhai lleiaf, yn rhan o'r cynhyrchiad. Rhyw 6 neu 7 oed oedden ni'n dwy. Glesni oedd y seren – hi oedd brenhines y tylwyth teg a Steffan Hughes oedd Rhys Glyndwr Hiraethog Tolstoy Jones – clamp o enw. Dwy dylwythen deg oedd Eiry a fi ac eraill – dillad ffansi a bob o ffon hud a lledrith arian, a rhyw goronet o flodau ar ein pennau. Perfformio yn Neuadd Rhydypennau, y Drill Hall, Aberystwyth, a Neuadd Tal-y-bont. Llawer o ymarfer a blinder mawr erbyn y diwedd.



Cyhoeddwyd llun o'r Blodau Glas yn y gyfrol *Aberystwyth a Gogledd Ceredigion*, Adran Gwasanaethau Diwylliannol Dyfed, 1992 gyda enwau y rhai yn y llun.

Rhes flaen: Derwyn Herbert, Michael Jones, Wyn Davies, Delyth Herbert, Steffan Hughes, Olwen Evans.

Ail Res: Gwynfor Jones, Leslie Lewis, Anthony Lewis, Gaenor Roberts, Richard Davies, Rhyd-tir, Beti Francis, Gwyneth Morse, Jane Davies, Rhyd-tir.

Rhes gefn: John Morgan, Margaret Stephens, Huw Jones, Theresa Pugh, Mair Jones, Pat Baker, Juliet Williams, Wyn Edwards. Y tylwyth teg, o'r chwith: Eiry Jones, Eleri Wyn Jones, Meinir Hughes, Jane Davies, Kathleen Lewis, Gillian Parry, Sandra Owen, Maria Jones, Caren Fleming, Sandra Joy Baker, Angela Brown. Yn eistedd: Glesni Jones.

Daeth newid ar fyd a symud i Ysgol Ramadeg Ardwyn ym 1958. Newid mawr i blant y wlad. Ysgol yn y dref, a gorfod gwisgo iwnifform. Gwyrdd oedd y lliw – dim unrhyw wyrdd, ond 'bottle-green' – gym-slip, blows wen, tei, mac gaberdine (blazer yn yr haf), a'r gwaethaf o'r cwbl, hat 'velour'. Roedd Eiry a finne'n casáu'r hat. Doedd hat ddim yn eistedd yn esmwyth ar ben merched â dwy blethen – gwaeth fyth, pan raddion ni i 'bony-tail'!

Wedi gadael yr ysgol, aeth Eiry i Goleg Aberystwyth a finne i Fangor, ond parhaodd y gyfeillach agos. Mae cyfaill mebyd yn gyfaill oes. I grynhoi – cofio y wên siriol, y llygaid llawn syndod; direidi a drygioni; parablu di-baid a ffraethineb naturiol Eiry. Ond, yn bennaf oll, cofio'r holl hwyl a'r chwerthin.

Hir y cof, melys yr atgofion ond gwaedu mae'r galon. Anodd yw pob ffarwél, ond mae'r un olaf yn ddirdynnol o derfynol. Ffarwél i ffrind annwyl.

**Meinir Lowry**

## Nadolig 2016

Gŵyl cân, a gŵyl y cinio --- a'r agor
Anrhegion llawn cyffro.
Clywch, 'na braf, mae clychau'n bro
Yn hapus --- er Aleppo!


**Huw Ceiriog**

y tincer

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# Lawnsio cyfrol newydd gan awdur lleol

Daniel Davies *Allez les Gallois* (Gwasg Carreg Gwalch) Y Lolfa 192t. £8.00




Cafwyd noson ddifyr a bywiog yn yr Hen Lew Du yn Aberystwyth ar Dachwedd 25ain wrth lawnsio nofel ddiweddaraf Daniel Davies, *Allez les Gallois*. Oes, mae a wnelo hi rywbeth ag ymweliad y tîm pêl droed cenedlaethol â Ffrainc yr haf diwethaf, ond mae hi'n llawer mwy na hynny!

Emyr Llywelyn oedd y siaradwr gwâdd, cyn-athro i'r awdur yn Ysgol Uwchradd Aberaeron, ac un o'r beirniaid pan ddyfarnwyd Gwobr Goffa Daniel Owen iddo am ei nofel *Tair Rheol Anhrefn* (Y Lolfa), yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn 2011.

"Y geiriau a ddefnyddiais yn fy meirniadaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol" meddai Emyr Llywelyn "oedd 'Nofel soffistigedig ddeallus gyfoes a llawn hiwmor gan nofelydd sy'n storïwr wrth reddf.' Gallaf ddweud yr un peth yn union am y nofel hon.

"Profiad Daniel yn y ciw dôl ac ymhlith pobl sy'n gwybod beth yw tlodi a chael eu sarhau, y bobl anweledig hynny - glanhawyr, gweinwyr mewn bwytai, labrwyr, y di-waith - a roddoddd iddo ei arbenigrwydd fel nofelydd - y dyngarwch, y tosturi a'r weledigaeth o fywyd sydd y tu ôl i'w ddigrifwch. Mae gan y Dr Daniel Davies ddawn brin, dawn athrylithgar sy'n cyfoethogi ein llên."

Aeth Emyr Llywelyn yn ei flaen i ddarllen rhannau doniol a threiddgar o'r llyfr, gan greu ynom awydd am wybod rhagor am helyntion Les Welsh (*Les Gallois*) a'i frwydr i anrhydeddu a gorseddu hanes ei arwr, Owain Lawgoch, ac am y straeon eraill am Rhian James ac Al Edwards, a Terry O'Shea. Do, fe aeth miloedd o Gymry i Ffrainc ym mis Mehefin eleni, ond nid ar bêl droed roedd bryd pob un ohonyn nhw.

"Prynwch , darllenwch a chwerthinwch yn uchel" oedd anogaeth Emyr Llywelyn. Gallaf innau ddweud yr un peth.

Gorffennwyd y noson gyda pherfformiad grymus, pwerus a chaboledig gan fand o gyfoeswyr Daniel Davies yn Ysgol Aberaeron, sy'n gweithredu dan yr enw cofiadwy Argyfwng Canol Oed.

**Cynog Dafis**






Emyr Llewelyn a fu'n annerch y noson a Daniel gyda'i nith, mewn crys T arbennig o addas!



Argyfwng canol oed

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
**TEGWYN LEWIS**
**01970 880627**

GWASANAETH GARDDIO
**ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
**01970 828312**

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Trip y Cyfnod Sylfaen i CAT

Dechrau'r mis bu plant y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â'r Ganolfan y Dechnoleg Amgen (CAT) ger Machynlleth. Roedd llu o bethau diddorol i'w gweld yno, dysgodd y plant lawer am bŵer solar, pwrpas melinau gwynt a sut maent yn gweithio, a sut mae dŵr yn medru creu pŵer. Ar ôl cinio, aethant am dro o amgylch y goedwig ar daith y cwarel.

### Pêl-rwyd a Pêl-droed

Bu Cyfnod Allweddol dau yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth gyfeillgar pêl droed a phêl rwyd yn erbyn Ysgolion Rhydypennau, Penrhyn-coch a Phen-llwyn ar gampws ysgol Rhydypennau. Roedd y ddau dîm o'r ysgol wedi cyd-chwarae'n dda iawn gyda'i gilydd ac roedd yn gyfle gwych iddynt gwrdd â disgyblion o'r ysgolion eraill.

### Nofio noddedig

Cynhalwyd "Nofio Noddedig" er mwyn codi arian ar gyfer talu am fws i fynd i nofio. Codwyd llawer o arian tuag at y bws, felly diolch i bawb am noddi'r plant. Hefyd, diolch yn fawr a da iawn i'r plant am nofio cymaint!

### 'Dolig yn dod!

Dymuna Ysgol Craig yr Wylfa Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a hapus i bawb!










Plant yn mwynhau trip i CAT.



CA2 timau Pêl-rwyd a Phêl-droed.

## Cyfeillion y tincer

***FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB***

**Enw Llawn** ______________________

**Cyfeiriad** ______________________

______________________

______________________

**Côd Post** ____________

**Rhif Ffôn** ____________

**Dychweler at y Trefnydd**
Bethan Bebb,
Pen Pistyll,
Cwmbrwyno,
Goginan,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3PG

**Taliadau**
**Ticiwch y blwch priodol os gwelwch yn dda**

☐ **Arian neu Siec**

☐ **Archeb Banc**

**Datganiad** **Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.**
**Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer.**

**Llofnod** ______________________

**Dyddiad** ______________________

# Ysgol Pen-llwyn

**Ras trawsgwlad**
Llongyfarchiadau mawr i Ana Joyce am ennill ei ras yn y Trawsgwlad, Cylch Aberystwyth. Daeth Deian Gwynne yntau o fewn y 10 cyntaf. Pob lwc iddynt yn y rownd nesaf.



**Plant Mewn Angen**
Bu plant yr ysgol i gyd yn cymryd rhan mewn pob math o weithgareddau Plant Mewn Angen ar y dydd gan wisgo eu dillad nos a thalu £1.

**Goleuo'r goeden Nadolig**
Digwyddiad o bwys yny pentref eleni oedd goleuo'r goeden Nadolig fawr y tu allan i Siop y Pentref. Gwahoddwyd plant yr Ysgol yno i ganu carolau a daeth torf dda ynghyd i'w cefnogi. Pob dymuniad da i'r siop dros dymor y Nadolig.





**Ffair Grefftau'r Nadolig**
Cafwyd cefnogaeth dda i'n Ffair Grefftau Nadolig ble gwerthwyd pob math o grefftau wedi eu gwneud gan y plant.

**Gwasanaeth Nadolig**
Cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Pen-llwyn. Bu'r plant yn canu nifer o garolau ac yn adrodd rhannau o stori'r Geni. Daeth y plant ifancaf â anrheg bob un i›w roi i›r Baban Iesu ac yna ymunodd y gynulleidfa â ni yn y garol olaf i gyd-ddathlu›r Nadolig.







# Ysgol Rhydypennau

### Y Llyfrgell Genedlaethol

Ar Dachwedd y 5ed fe aeth blwyddyn 5 a 6 i'r dre i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Yno cafodd y plant eu tywys o gwmpas y llyfrgell gan ddysgu am hanes yr adeilad a sut mae'r llyfrau, y cylchgronau a'r cyhoeddiadau diweddaraf yn cael eu cynnal a'u cadw. Cafodd y plant hefyd glywed am 6 eicon y Llyfrgell; a bu'r plant wrth eu bodd yn dysgu am hen lawysgrifau, hen fapiau ac am stori drist Hedd Wyn ym 1917. Diolch yn fawr i Mr Rhodri Morgan am egluro a rhannu ei wybodaeth eang mor effeithiol gyda'r plant.

### Gala'r Urdd

Da iawn i bawb a fu'n nofio yng ngala'r Urdd ym mhwll nofio Plas-crug yn ddiweddar. Gala i holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd nofwyr safonol iawn yn cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddo i orffen yn y chwech cyntaf; Elen Morgan bl 6-1af a 3ydd; Noa Elias bl 3-3ydd; Erin Kenny Hesden bl 4-4ydd; tîm cyfnewid i ferched bl 3 a 4-5ed a thîm cyfnewid i ferched bl 5 a 6-6ed. Gan fod Elen Morgan yn fuddugol yn ei ras, mi fydd hi nawr yn cynrychioli'r sir yng ngala cenedlaethol yr Urdd lawr yn y Brifddinas ychydig ar ôl y flwyddyn newydd. Campus!

### Plant Mewn Angen

Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar y 17eg o Dachwedd. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn trefnu stondinau a nifer o weithgareddau difyr er mwyn codi arian i'r elusen. Ar ddiwedd y dydd casglwyd £335. Ardderchog!

### Chwaraeon

Ar y 12fed o Dachwedd cynhaliwyd gŵyl bêl-droed a phêl-rwyd yn yr ysgol. Gwahoddwyd ysgolion cyfagos i gymryd rhan mewn un o ddau safle. Diolch yn fawr i blant ysgol Craig yr Wylfa, Pen-llwyn a Phenrhyn-coch am ymuno â ni yn ystod y p'nawn. Diolch arbennig i Mr Amlyn Ifans am ei gymorth i baratoi y meysydd pêl-droed i ni ar Gae Piod.

### Ffarwelio

Yn ystod tymor yr hydref, bu'n rhaid ffarwelio gydag aelod gwerthfawr a phoblogaidd o staff yr ysgol. Bu Mrs Helen Jones yn ran blaenllaw o'r staff am nifer o flynyddoedd; hoffa'r ysgol ddiolch o galon iddi am ei brwdfrydedd a'i gwaith rhagorol i feithrin addysg plant Ysgol Rhydypennau mor arbennig dros y blynyddoedd. Pob hwyl i chi, Mrs Jones yn eich swydd newydd.

### Cefnogaeth

Cafodd plant yr ysgol gyfle i gyfarch Aled Hughes, Radio Cymru, yn ddiweddar wrth iddo basio'r ysgol ar ei ffordd i Fangor fel rhan o'i feicio noddedig.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*


Bwrlwm Plant Mewn Angen.


Aled ar ei feic.


Gala lwyddiannus-(Chwith o'r cefn)-Lleucu Sion, Elen Morgan, Moana Raggett, Olivia Scarrott. (Blaen) Carys Williams Watkin, Alys Griffiths, Noa Elias, Erin Kenny Hesden, Llio Tanat.


Hwyl fawr a diolch Mrs Jones.



Ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol.

# Ysgol Penrhyn-coch

### Gala Nofio

Bu nifer o bysgod y Penrhyn yn y Gala eleni ac wedi gwneud eu gorau glas. Llongyfarchiadau i Lowri Bishop a ddaeth yn 8fed yn rownd Ceredigion!

### Bags 2 School

Diolch unwaith eto i'r sawl a gasglodd hen ddillad a nwyddau i'w rhoi i'r casgliad. Bydd yr Ysgol yn elwa yn ariannol

### Ed Holden

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 sesiwn anghygoel gydag Ed Holden sydd yn enwog fel 'beatboxer' yng Nghymru a thu hwnt. Roedd yr athrawon wrth eu boddau hefyd!

### Plant mewn Angen

Eleni eto mwynheuodd y plant eu diwrnod trwy wisgo pyjamas i'r Ysgol. Roedd y plant bach wrth eu boddau yn glynu smotiau dros Miss Cory! Codwyd £108.

### Arad Goch

Cafwyd perfformiad arrderchog arall i blant y Cyfnod Sylfaen gyda'r sioe 'Ble mae'r dail yn hedfan?' Cychwynodd y sioe tu allan lle roedd yn rhaid i'r plant gasglu holl ddail yr hydref cyn dilyn yr actorion i mewn i'r neuadd. Cafodd y plant gyfle wedyn i adeiladu gyda'r darnau o bren ac addurno gyda'r dail lliwgar.

### Ffair 'Den Dolig'

Cafodd pob dosbarth dipyn o her eleni i sefydlu busnes eu hunain i greu a gwerthu yn ein ffair nadolig. Enw busnes y dosbarth derbyn oedd 'D,D,D'-Dathliadau Dolig Derbyn a bu nhw yn addurno gwydrau gwin a chreu cardiau nadolig-gwnaethpwyd elw o tua £215.

Enw busnes dosbarth 2 oedd 'Mawredd Mawr-Moch y Coed' a bu nhw yn creu corachod ac addurniadau nadolig allan o foch y coed – gwnaethpwyd elw o £295

Enw busnes dosbarth 3 oedd-Anrhegion Anhygoel a bu nhw yn yn creu ceirw allan o bren a lluniau allan o gerrig bach a phecynnau o gynhwysion coginio bisgedi a 'brownies'-gwnaethpwyd elw o tua £315

Bu dosbarth 4 yn creu melysion rwdolff, addurniadau bwrdd allan o ddeunydd naturiol ac addurniadau pompoms - gwnaethpwyd elw o tua £180

Llongyfarchiadau i ddosbarth 3 ac mi fyddan nhw nawr yn derbyn £50 gan Miss Lawrence i gychwyn ar funes newydd sbon i'r Ysgol!

### Ffair Aeaf-Llanelwedd

Eleni eto bu o'r disgyblion yn cystadlu gyda chrefftau a choginio yn y Ffair Aeaf. Llongyfarchiadau i Elis Wyn a ddaeth yn ail gyda'r wynebau tatws, Annie May yn ail gyda'r dyn bach sinsir a Tomos James yn 3ydd gyda'r dyn bach sinsir.

















Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

# Tasg y Tincer

Ydych chi wedi gosod eich addurniadau Nadolig yn eich cartrefi erbyn hyn, ac wedi helpu efo'r siopa a'r paratoi? Gobeithio bod pob sioe a cyngerdd wedi mynd yn hwylus a'ch bod wedi mwynhau'r cyfan ... ac mae bron iawn yn ddiwedd tymor! Er ei bod hi'n gyfnod prysur, mae'n bwysig iawn ein bod i gyd yn cofio pam ein bod yn dathlu'r Nadolig a pham ein bod yn rhoi a derbyn anrhegion.

Diolch i bawb fu wrthi'n lliwio llun Pydsi mis diwethaf, ac mae sawl enw newydd yma. Hwrê! Dyma'r lliwyr: Tomos Llywelyn, Llandre; Cennydd Davies, Llanilar; Iolo Ifan, Llandre; Elin Pierce Williams, Bow Street; Cari Jenkins, Penrhyn-coch; Gwawr Morgan, Bow Street; Amelia Welsby, Aberystwyth; Alaw Grug Morgan, Tal-y-bont; Twm, Penrhyn-coch; Elin Gore, Comins-coch; Dylan Rhys Herron, Bow Street; Elis Wyn, Penrhyn-coch; Megan Haf ac Anna Jên Dunne, Bont-goch. Diolch hefyd i ti, Einion Davies, am dy lun lliwgar o'r wrach.

Dy enw di, Iolo, ddaeth o'r het yn gyntaf. Llongyfarchiadau!

Mae'n siŵr eich bod chithau hefyd wedi bod wrthi'n dysgu carolau a chaneuon Nadolig yn yr ysgol ac yn yr ysgol Sul. Wyddoch chi fod gennym yma yng Nghymru fath arbennig o garol, sef carol y **plygain**? Roedd y caneuon hyn arfer cael eu canu mewn eglwysi yn gynnar ar fore dydd Nadolig. Mae'r gair 'plygain' yn dod o'r Lladin *pullicantio,* ac ystyr hwnnw yw 'ar ganiad y ceiliog'. Erbyn hyn, mae sawl eglwys yn cynnal gwasanaeth lle mae carolau'r plygain yn cael eu canu gan bobl a phlant o bob oed, gan gynnwys eglwys Penrhyn-coch, wrth gwrs. Mae rhywbeth arbennig iawn am rai o'r hen, hen garolau hyn.

Anfonwch eich llun o'r plant yn canu carolau at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Ionawr 10fed. Nadolig llawen i bob un ohonoch chi, a ta tan toc!



Iolo



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru

CYMRAEG

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009